Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen-y-bryn
# Bethesda
# Gwynedd
# LL57 3BE

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol iau ym mhentref Bethesda, yw Ysgol Pen-y-bryn. Fe’i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Gwasanaetha’r ysgol bentref Bethesda a’r ardaloedd cyfagos. Mae’r ysgol yn disgrifio’r ardal a wasanaethir ganddi fel un o dan anfantais economaidd.

Mae 112 o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Daw 80% o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Nid oes yna ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd. Tua 20% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae’r ffigur hwn ychydig yn uwch na’r cyfartaledd sirol ac yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 25% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pen-y-bryn yn 2011-2012 yw £3,220. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,745. Mae Ysgol Pen-y-bryn yn safle 63 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor y gwanwyn 2006.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ebrill 2004.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- y profiadau dysgu rhagorol a ddarperir;
- bod mwyafrif yr addysgu'n dda neu well ar draws yr ysgol, gyda chefnogaeth effeithiol gan y cymorthyddion dysgu; a
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir sy'n cael ei rhannu gan y dirprwy, staff a'r llywodraethwyr;
- llwyddiant yr ysgol yn creu strategaethau effeithiol iawn ar gyfer codi safonau; a'r
- cyfleoedd penodol a roddir i'r disgyblion o fewn y drefn hunan arfarnu sy'n dylanwadu'n sylweddol ar godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 cynyddu niferoedd y bechgyn sy'n cyflawni ar lefel 5 neu uwch; a

A2 rhannu arferion gorau'r addysgu drwy'r ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd, yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn arddangos cynnydd amlwg yn safon yr hyn a gyflawnir o fewn sesiynau dysgu a thros gyfnod o amser. Gwelir cynnydd sylweddol dros fyr amser, yn arbennig mewn Saesneg.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn yr holl bynciau yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chyfartaledd canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg a Chymraeg a'r 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau'r ysgol yn y Gymraeg wedi bod yn gyson uwch na'r teulu ac ysgolion Cymru ers pedair blynedd ac yng ngweddill y pynciau ers dwy flynedd.

Mae gwelliant sylweddol wedi bod yng nghanlyniadau lefel 5 yr ysgol yn ddiweddar gyda chanran uwch ym mhob pwnc na chyfartaledd y teulu a Chymru.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn 2011 yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ar lefel 5, gyda chanlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na'r merched.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon ac oedolion eraill yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus ac yn glir yn y ddwy iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn gallu ymateb yn synhwyrol i safbwyntiau eraill a chynnig cyfraniadau dilys eu hunain o fewn parau ac yn ystod gwaith grŵp. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion â gafael dda iawn ar gystrawen naturiol yr iaith lafar, yn arbennig yn y Gymraeg.

Mae safon darllen bron pob un o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Deallant yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol maent yn gallu chwilio am a choladu gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn hyderus ac mae trawsieithu yn digwydd yn naturiol ac yn effeithiol.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn y ddwy iaith yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig effeithiol. Mae datblygiad ysgrifennu erbyn brig yr ysgol mewn Saesneg yn dangos cynnydd sylweddol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau.

Mae’r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n dda ac yn gwneud cynnydd priodol i’w hoed a’u gallu.

Mae disgyblion sydd â’r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â’r iaith yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta’n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Cyfranogant yn gyson mewn gweithgareddau cadw’n heini ac ymarfer y corff o fewn yr ysgol ac o fewn y clybiau wedi oriau ysgol.

Mae’r disgyblion yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch ac maent yn gwybod sut i leisio barn a mynegi pryder ynglŷn ag unrhyw achos o fwlio neu gamymddwyn. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel. Maent yn troi’n hyderus at oedolion a chyfoedion am gymorth. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn eu gwersi ac ar adegau llai ffurfiol. Dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent bron oll yn ddysgwyr brwdfrydig sy’n gallu cydweithio’n effeithiol ag eraill. Dangosant falchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig.

Mae presenoldeb yr ysgol bron yn 95% ar hyn o bryd ac mae hwn yn gynnydd ar gyfartaledd presenoldeb y tair blynedd diwethaf ac yn uwch na’r cyfartaledd lleol a chenedlaethol.

Mae’r Cyngor Ysgol, y Grŵp Gwyrdd, y Cyngor Chwaraeon a’r Grŵp Effeithiolrwydd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithredu ffyrdd effeithiol o gaffael barn a sylwadau cyd-ddisgyblion ac o sicrhau fod y sylwadau yn cael eu clywed a’u hystyried. Mae’r modd y mae’r Grŵp Effeithiolrwydd yn gweithredu, yn golygu bod disgyblion yn cael dylanwad cryf ar hunan arfarniad yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol mewn agwedd disgyblion tuag at ddysgu ac wedi codi safonau yn sylweddol. Mae hyn yn elfen ragorol sy’n cael ei chynnig i weddill ysgolion y sir fel arfer dda i’w hefelychu.

Mae’r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mentergarwch, chwaraeon, cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau yn rheolaidd. Maent bron oll, ar draws yr ysgol, yn elwa o’r cyfleoedd hyn ac yn meithrin hyder.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio’n llawn â’r gofynion statudol. Mae’r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Mae systemau cynllunio’r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd i’r holl ddisgyblion brofi amrediad helaeth o weithgareddau symbylus a heriol. Mae dylanwad rôl y cymorthyddion a’r Grŵp Efeithiolrwydd yn sgil cyfoethogi’r ddarpariaeth yn elfen gref iawn. Mae’r rhan a roddir i’r disgyblion yn y broses hon yn arloesol. Rhoddir cyfle iddynt werthuso gwersi a chynnwys y cwricwlwm a chynnig newidiadau pan fo’n briodol.

Caiff medrau cyfathrebu, darllen a meddwl ffocws clir yn y cynllunio, gyda hyn wedi cael dylanwad amlwg ar godi safonau holl garfannau disgyblion yr ysgol. Mae rhan y disgyblion o fewn y cynllunio a'u dealltwriaeth o fedrau meddwl o fewn y dysgu yn rhagorol.

Mae gwahaniaethu gweithgareddau dysgu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn nodwedd ardderchog. Mae hyn yn sicrhau cynnydd da iawn ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth gyfoethog ac ysgogol ar gyfer astudio hanes a llên gwerin yr ardal. Mae hyn ynghyd â'r cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn.

Mae addysg ar gyfer cynaladwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn manteision effeithiol iawn ar y berthynas weithredol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chysylltiadau rhyngwladol gydag Indonesia a Jamaica.

### Addysgu: Da

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda. Lle mae'r addysgu ar ei orau, datblygir medrau cyfathrebu, darllen a meddwl yn effeithiol iawn. Gwneir defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant a chwestiynu treiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion a rhoddir cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu annibyniaeth yn y dysgu. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu effeithiol ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd.

Ar bydiau, mae rhediad y gwersi'n rhy araf ac mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar eu hathrawon.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol yn eu cefnogaeth i'r disgyblion ar draws yr ysgol ac maent yn cydweithio'n ardderchog gyda'r athrawon dosbarth. Rhoddir ystyriaeth fwriadus i anghenion disgyblion unigol o fewn y cynllunio dydd i ddydd. Mae mewnbwn y disgyblion ar sut maen nhw'n dysgu orau yn nodwedd gref.

Mae rheolaeth dosbarth yn gyson dda drwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r defnydd a wneir o asesu ar gyfer dysgu. Mae'r strategaethau wedi eu hintegreiddio i'r gwersi ac yn rhan annatod o ddulliau addysgu ac ethos yr ysgol. Defnyddir amrywiaeth o strategaethau i ysgogi a chadw diddordeb y disgyblion. Mae'r asesu yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau yn arwain y cynllunio a'r marcio ac mae'r sylwadau'n adeiladol. Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o gynnwys y disgyblion i fod yn rhan o'r broses asesu a gosod meini prawf llwyddiant i'w hunain ac i'r gwersi. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymroddiad disgyblion ac ar safonau.

Mae gan yr ysgol system dracio gynhwysfawr sy'n defnyddio amrediad o brofion safonol i fesur cynnydd a gosod targedau ac ymyrraeth briodol. Mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion gan amlinellu'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar sydd â disgwyliadau a rheolau sy'n glir i bawb. Mae swyddogion o blith y disgyblion, sef 'Bydis Buarth' yn cynnig cymorth i gyfoedion yn ôl yr angen.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol perthnasol i sicrhau'r ddarpariaeth briodol ar gyfer pob disgybl. Caiff y ddarpariaeth briodol ar gyfer lles a manteision byw'n iach ei hyrwyddo'n effeithiol gan bwyllgor iach yr ysgol ynghyd ag yn y cynlluniau gwaith.

Darperir gwybodaeth dda i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol. Caiff pob disgybl gymorth ac arweiniad priodol. Mae trefniadau sefydlu effeithiol ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig ac mae cyfundrefnau effeithiol yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hŷn i addysg uwchradd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol. Cedwir cofnod manwl o'r disgyblion a'u hanghenion gan gynnwys cynlluniau addysg unigol addas. Darperir ymyrraeth briodol a gwelir effaith sylweddol ar gynnydd.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal lle caiff pob disgybl eu cynnwys yn rheolaidd ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn llwyddiannus.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r adeilad. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol iawn ac mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan flaenllaw wrth ddatblygu'r buarth gan arwain gwelliannau. Gwneir defnydd cyson ac effeithiol o gyfleusterau'r ganolfan hamdden a'r cae rygbi lleol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac adnabyddiaeth lawn o anghenion yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr

a'r disgyblion. Mae'r pennaeth, y staff, a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i gyflwyno strategaethau penodol ar gyfer codi safonau disgyblion.

Ymgymera'r pennaeth a'r dirprwy â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gosod targedau a disgwyliadau heriol ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu tuag at agweddau ar reolaeth ar draws yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd fel tîm. Caiff yr ysgol gefnogaeth dda gan y llywodraethwyr. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson, yn dadansoddi data diwedd cyfnod allweddol ac yn ystyried tystiolaeth bellach yn effeithiol. Mae gan aelodau'r corff llywodraethol adnabyddiaeth drylwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Gweithredant yn llwyddiannus yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Rhoddir sylw penodol i ofynion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, gyda disgyblion yn cael cyfle arloesol i gyfrannu at gynllunio ac adolygu gwersi a chyfrannu i'r broses hunanarfarnu.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer mesur ei heffeithiolrwydd. Mae'r broses hunan arfarnu yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae'r modd y mae'r disgyblion yn cyfrannu at y broses hunan arfarnu ac yn dylanwadu ar weithrediad yr ysgol yn arfer arloesol.

Mae trefn yr ysgol o hunan arfarnu yn drylwyr iawn ac yn cynnwys trafodaethau staff, monitro'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau dosbarth a dadansoddi a lefelu gwaith plant. Caiff holl staff yr ysgol ac aelodau'r corff llywodraethol gyfleoedd i gyfrannu'n llawn i'r broses hunan arfarnu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu sy'n gynhwysfawr ac yn cynnig darlun clir o berfformiad yr ysgol.

Ceir cysylltiad amlwg rhwng y broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol wrth gynhyrchu cynllun datblygu ysgol clir a chynhwysfawr.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol mewnol yr ysgol yn sicrhau bod y staff yn datblygu a rhannu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol iawn. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n arbennig o dda. Mae athrawon o'r ysgol wedi rhoi arweiniad ar feysydd dysgu penodol o fewn y clwstwr ac yn ehangach. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cyfoethogi yn effeithiol ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol a chyfrannu at godi safonau yn sylweddol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol effeithiol.

Mae cyswllt cadarn gyda'r rhieni ac maent yn medru cyfrannu i waith yr ysgol trwy ymateb i holiaduron a chynnig awgrymiadau a sylwadau. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni hwythau.

Mae trefniadau trosglwyddo priodol rhwng yr ysgol a'r ysgol cyfnod sylfaen a'r ysgol uwchradd. Mae llawer o weithgareddau pontio o safon uchel yn cael eu darparu, sy'n cynnwys gwaith pontio a chymedroli priodol yn y pynciau craidd.

Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned yn dda. Mae'r cyngor ysgol wedi creu cysylltiad gwerthfawr gyda Chwarel y Penrhyn. Mae cysylltiadau agos hefyd gyda'r cyngor tref trwy'r cydweithio ar y cynllun adfywio a datblygu Ogwen er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y gymuned. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n fisol i'r papur bro. Mae'r ysgol yn rhan o glystyrau o ysgolion lleol ac ehangach sy'n rhannu arferion da sy'n dylanwadu yn gadarnhaol ar weithdrefnau'r ysgol. Yn benodol, mae cydweithio effeithiol rhwng ysgolion y peilot fframwaith effeithiolrwydd ysgolion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio 'n briodol i addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Defnyddir arbenigedd staff ar gyfer cyfnewid a dysgu ar draws yr ysgol yn effeithiol.

Mae cyfraniad arbennig y cymorthyddion dysgu yn cynnig cefnogaeth effeithiol i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion datblygu'r staff ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol.

Ceir gweithdrefnau da ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol holl aelodau'r staff. Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr hyfforddiant a chyfrifoldebau staff a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal i safon uchel. Gwneir defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael trwy addasu dosbarthiadau gwag ar gyfer creu canolfannau megis cegin, llyfrgell ac ystafell gelf.

Mae'r adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu'n benodol i ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Data perfformiad**

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn yr holl bynciau a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chanran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a'r dangosydd pwnc craidd a'r 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg dros bedair blynedd wedi bod yn weddol wastad gyda'r ysgol yn gyson uwch na'r teulu a Chymru ers 2006. Anwastad fu'r canlyniadau mewn Saesneg dros yr un cyfnod hyd at 2010-2011. Mae canlyniadau lefel 5 yr ysgol wedi gwneud cynnydd amlwg ac yn uwch na chyfartaledd canrannau'r teulu a Chymru ers 2009-20010 yn y Gymraeg ac ers 2010-2011 yn y Saesneg.

Mewn mathemateg mae'r canlyniadau wedi bod yn weddol gyson yn uwch na'r teulu a Chymru ers 2008-2009. Mae'r canlyniadau lefel 5 wedi bod yn is na'r teulu ers 2008-2009 ond wedi dangos gwelliant yn 2010-2011 ac yn uwch na'r teulu a Chymru..

Mae canlyniadau gwyddoniaeth ar lefel 4 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru ers 2008-2009 ac ers 2009-2010 ar lefel 5.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn 2011 o fewn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ar lefel 5 gyda chanlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na'r merched.

Nid oes gwahaniaethau amlwg o fewn y data ar ddiwedd cyfnod allweddol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion yma, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy'n unol â'u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth 53 o ymatebion i law. Mae bron pob un yn datgan fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae pob un hefyd o'r farn fod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a'u bod yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr addysgu yn dda, eu bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant a'u bod yn fodlon â'r cynnydd wna eu plant.

Mae'r rhan fwyaf yn datgan fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer y disgyblion. Credant fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch ac yn cynnig cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae'r rhan fwyaf hefyd yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a theimlant yn esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol. Credant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 110 o ddysgwyr yr holiadur. Mae'r dysgwyr oll yn datgan fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a fod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywedant fod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â hwy os byddant yn gweld y gwaith yn anodd a theimlant fod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer gwneud eu gwaith. Dywedant hefyd eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Nododd llawer o'r disgyblion fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Angharad Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceren Lloyd (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.